**Tystiolaeth i Ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar goridor yr M4 o amgylch Casnewydd**

## Cyflwyniad

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol. Rydym yn croesawu'r cyfle hwn i ymateb i ymchwiliad y pwyllgor i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgynghoriad ar goridor yr M4 o amgylch Casnewydd.

Mae gwaith strategol cychwynnol wedi dechrau i ddatblygu cynigion cyfredol Llywodraeth Cymru. Mae ymgynghoriad wedi agor (23 Medi 2013 tan 16 Rhagfyr 2013) ar gynllun drafft Llywodraeth Cymru ac asesiadau amgylcheddol cysylltiedig sydd, ar hyn o bryd, yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) a gwaith i lywio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) Strategol. Rydym eisoes wedi cyflwyno ymateb ffurfiol i gam cwmpasu'r SEA a byddwn yn ymateb i'r holl ymgynghoriadau a dogfennau cyfredol. Gall y cyhoedd weld ein hymatebion. Gan mai ymgynghoriad lefel strategol yw hwn, nid oes cynllun manwl i ni gyflwyno sylwadau arno. Yr opsiynau yw'r coridor a ffafrir gan Lywodraeth Cymru, dau goridor amgen sy'n wahanol i'r coridor a ffafrir am ryw draean o'i hyd, ac ystyried opswn gwneud y lleiaf posibl (h.y. dim adeiladu darn newydd o ffordd, ond ystyried cynlluniau trafnidiaeth sydd eisoes wedi'u cynnig yn y cyffiniau). Bydd cynnal SEA ac HRA yn ystod y cam strategol yn dangos a fydd angen HRA ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) yn y cam prosiect, a chwmpas yr asesiadau hynny.

## 1. Rolau Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r cynigion drafft ar gyfer Coridor yr M4

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd strategol Coridor yr M4 i les economaidd Cymru ac economi ehangach y Deyrnas Unedig. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ganfod atebion a fydd yn helpu i sicrhau bod modd gwella Coridor yr M4 tra'n lleihau unrhyw effaith andwyol sylweddol ar adnoddau amgylcheddol sydd wedi'u cydnabod fel rhai pwysig. Nodir y prif faterion amgylcheddol yn adran 2 isod. Mae gennym sawl rôl mewn perthynas â'r cynigion hyn:

**Fel Cynghorydd rydym** yn rhoi **cyngor technegol** o bob math i ddylanwadu ar ddatblygiad y cynllun a'i Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel cynllun. Ni fydd ein cyngor yn rhagfarnu unrhyw gyngor y gallai ein Tîm Asesu Strategol ei roi fel Ymgynghorai Statudol a chorff ymgynghorol ar ôl i'r cynlluniau gael eu cwblhau.

**Rydym yn Ymgynghorai Statudol** ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol statudol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel cynllun.

**Fel rheoleiddiwr** mae gennym sawl rôl mewn perthynas â rhoi trwydded/caniatâd, gyda rolau cydymffurfio a gorfodi cysylltiedig mewn perthynas ag unrhyw ganiatâd a roddir, yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu:

- Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd
- Trwyddedau neu Eithriadau Amgylcheddol – Materion Rheoli Gwastraff
- Trwyddedau Amgylcheddol – Gollyngiadau Ansawdd Dŵr
- Trwyddedau Amgylcheddol – Materion Adnoddau Dŵr
- Trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop
- Trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol
- Caniatâd/cydsyniad Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Trwyddedau Morol

## 2. Materion Amgylcheddol Allweddol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru

**Effaith Bosibl ar Safleoedd Dynodedig Ewropeaidd**

Caiff safleoedd o bwys Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth natur eu dynodi fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) o dan y Gyfarwyddeb Adar. Gyda'i gilydd, cyfeirir atynt fel safleoedd Ewropeaidd neu rwydwaith Natura 2000. Yn ogystal, polisi Llywodraeth Cymru yw bod safleoedd sydd wedi'u dynodi'n Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol, neu safleoedd Ramsar yn cael eu trin fel safleoedd dynodedig Ewropeaidd hefyd. Felly, mae'r tri math o safle'n destun HRA; sef asesiad a wneir pan fydd yna gynlluniau, rhaglenni neu brosiectau drafft sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw un o nodweddion dynodedig unrhyw safle Ewropeaidd a natur gydlynol rhwydwaith Natura 2000. Yr Awdurdod Cymwys, y sawl sy'n llunio'r cynllun neu'r sawl sy'n cynnig y prosiect – sef Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn - sy'n gyfrifol am gynnal yr HRA, ac mae angen ymgynghori â'r corff cadwraeth natur priodol – Cyfoeth Naturiol Cymru yn yr achos hwn.

Byddai'r tri llwybr sydd wedi'u cynnig fel rhan o'r cynllun drafft yn cynnwys adeiladu pont newydd ar draws Afon Gwy (ACA). Mae dyletswydd statudol ar Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i 'osgoi dirywiad y cynefinoedd ac aflonyddu sylweddol' o dan Erthygl 6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Hefyd, bydd angen ystyried effeithiau anuniongyrchol posibl ar nifer o safleoedd Ewropeaidd eraill yng nghyffiniau'r cynigion fel rhan o unrhyw HRA strategol a/neu lefel prosiect. Mae safleoedd a allai berthyn i'r categori hwn yn cynnwys ACA, AGA a safle Ramsar Aber Afon Hafren, ac ACA Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Dena. Byddai safleoedd o'r fath yn cael eu sgrinio i ddechrau i weld a oes angen HRA os oes posibilrwydd y bydd cysylltiad hydrolegol neu allyriadau i'r awyr yn cael eu heffeithio. Mae sawl cam i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n berthnasol adeg y gwaith cynllunio ac wrth gyflawni'r prosiect:

- Asesiad o Effaith Sylweddol Tebygol ar safle Ewropeaidd

- Lle na ellir gwarantu na fydd effeithiau sylweddol, rhaid cynnal Asesiad Priodol, sy'n ystyried a fydd cynllun neu brosiect yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd, o ystyried amcanion safleoedd cadwraeth.

- Os na ellir gwarantu na fydd effeithiau andwyol, rhaid i'r awdurdod cymwys bennu a oes opsiynau eraill yn hytrach na chwblhau'r cynllun neu brosiect. Ni all yr ystyriaeth hon ystyried ffactorau economaidd - h.y. ni ellir diystyru ateb drutach

- Os nad oes opsiynau eraill, rhaid i'r Awdurdod Cymwys fod yn fodlon bod yna resymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig a bod modd sicrhau digon o fesurau unioni i ddiogelu cyfanrwydd cyffredinol y safleoedd Ewropeaidd.

Mae'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y cynnig hwn yn gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau na fyddai unrhyw niwed.

**Effeithiau Posibl ar Safleoedd Dynodedig Cenedlaethol**
Yn ogystal â'r dynodiad Ewropeaidd, mae cyfres arall o safleoedd â dynodiad ffurfiol. Yng nghyd-destun y cynigion hyn, y safleoedd allweddol yw Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) amrywiol Gwastadeddau Gwent a gafodd eu hysbysu oherwydd yr amrywiaeth o blanhigion ac infertebratau dŵr sy'n gysylltiedig â rhewynau a ffosydd y system ddraenio.

Mae diddordeb arbennig y SoDdGA hyn yn dibynnu ar y system ddraenio a'i rheolaeth barhaus, ynghyd ag ansawdd a chyfanswm y dŵr yn y rhewynau a'r ffosydd. Gall unrhyw ddatblygiad sy'n cael effaith andwyol ar unrhyw un o'r nodweddion hyn gael effaith andwyol ar y bywyd gwyllt y cafodd yr ardal ei hysbysu amdano i ddechrau.

Mae Gwastadeddau Gwent yn bwysig ar gyfer rhywogaethau planhigion tanddwr sy'n gysylltiedig â dŵr agored, fel y dyfrllys blewynnaidd *Potamogeton trichoides*, a phlanhigion sy'n ymddangos ar wyneb y dŵr fel y saethlys *Sagittaria sagittifolia*.

Yn ein barn ni, byddai llwybr unrhyw ffordd newydd, fel y cynigir yng nghynllun drafft Llywodraeth Cymru, yn effeithio 'n uniongyrchol ar y safleoedd hyn:

- Gwastadeddau Gwent: SoDdGA Redwick a Llandyfenni
- Gwastadeddau Gwent: SoDdGA Whitson
- Gwastadeddau Gwent: SoDdGA Trefonnen ac Allteuryn
- Gwastadeddau Gwent: SoDdGA Llansanffraid Gwynllŵg

Mae hyn yng nghyd-destun cymryd tir yn uniongyrchol o'r SoDdGA hyn (colli arwynebedd SoDdGA i'r ffordd) yn ogystal â newidiadau tebygol i ansawdd y dŵr a'r cyfanswm dŵr sydd ar gael, a chyfyngiadau ar y gallu i roi gweithrediadau rheoli ffafriol ar waith.

Hefyd, gallai'r gwaith gael effaith anuniongyrchol ar y safleoedd canlynol:

- Gwastadeddau Gwent: SoDdGA Magwyr a Gwndy
- SoDdGA Cors Magwyr

- SoDdGA Gwlyptiroedd Casnewydd
- Gwastadeddau Gwent: SoDdGA Tredelerch a Llanbedr Gwynllŵg

Mae'n werth nodi bod SoDdGA Gwlyptiroedd Casnewydd yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol Casnewydd, a adeiladwyd i wireddu ymrwymiad Llywodraeth y DU i greu ardal sylweddol o gynefin gwlyptir ar lannau Aber Afon Hafren i wneud yn iawn am golli SoDdGA Aber Afon Taf/Elái ar ôl adeiladu Morglawdd Bae Caerdydd.

Gallai newidiadau i'r patrwm draenio a newidiadau yng nghyfanswm y dŵr sydd ar gael a newidiadau i ansawdd dŵr gael effaith anuniongyrchol ar yr holl safleoedd hyn.

Rydym yn asesu'r cynllun drafft i bennu arwyddocâd yr effeithiau hyn yn absenoldeb y manylion a fyddai'n rhan o unrhyw ymgynghoriad lefel prosiect dilynol.

Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y nodweddion dynodedig yn cael eu gwarchod a'u gwella ymhellach wrth benderfynu a ddylid mabwysiadu'r cynllun ai peidio.

**Effaith Bosibl ar Rywogaethau a Warchodir**

Mae'r holl rywogaethau a restrir yn Atodlen 2 a 4 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop. Yng nghyd-destun y cynllun drafft hwn, mae Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn cynnwys:

- Pob rhywogaeth o ystlum
- Y fadfall ddŵr gribog
- Y dyfrgi
- Y pathew

Pan fydd rhywogaeth a warchodir gan Ewrop yn bresennol, ac mae cynnig yn debygol o dorri'r ddeddfwriaeth sy'n ei gwarchod, rhaid i ddatblygiad gael trwydded gan CNC fel yr awdurdod priodol cyn i'r gwaith allu mynd yn ei flaen. Dim ond dan yr amgylchiadau canlynol y gallwn ni roi'r trwyddedau hyn:

'*diogelu iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd neu unrhyw reswm hanfodol arall sydd o fudd cyhoeddus tra phwysig yn cynnwys rhesymau cymdeithasol neu economaidd eu natur a chanlyniadau buddiol sy'n bwysig iawn i'r amgylchedd.*'

A rhaid bodloni'r meini prawf isod:

*'Does yna ddim dewis arall boddhaol'* ac

*'Ni fydd y datblygiad yn cael effaith niweidiol ar y gwaith o gynnal poblogaeth y rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraethol ffafriol yn eu hystod naturiol'.*

Mae ystyried effeithiau posibl cynllun neu raglen ar fioamrywiaeth, fflora a ffawna yn hanfodol dan y broses SEA.

Yn ystod y gwaith strategol, a heb wybodaeth arolwg manwl a fyddai'n rhan o Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, ni allwn ddweud a fydd y cynllun yn effeithio ar unrhyw un o'r Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, er y gallwn ddweud bod pob un o'r rhywogaethau wedi'u cofnodi yn y gorffennol yng nghyffiniau'r coridorau sy'n cael eu hystyried yn y cynllun drafft.

Yn ogystal, mae nifer o rywogaethau eraill o anifeiliaid a phlanhigion yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth genedlaethol. Yn yr un modd, heb arolwg manwl, ni allwn ddweud a fydd effaith ar y rhywogaethau hynny.

**Tirwedd Hanesyddol**
Mae'n hanfodol ystyried effeithiau posibl cynllun neu raglen ar dreftadaeth ddiwylliannol fel rhan o'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol.
Mae cynnwys Gwastadeddau Gwent yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol (Cadw/ICOMOS UK (Cyngor Rhyngwladol Henebion a Safleoedd)/CCGC), 1997) yn adlewyrchu pwysigrwydd y dirwedd hanesyddol.

Gofynnir i awdurdodau cymwys ystyried gwybodaeth am y Gofrestr wrth bwyso a mesur goblygiadau datblygiadau "sydd o'r fath raddfa faint fel y byddent yn cael effaith fwy nag effaith leol ar ardal sydd ar y Gofrestr", (Polisi Cynllunio Cymru, 2012). Defnyddir y fethodoleg Asesu Arwyddocâd Effaith Datblygiad ar Ardaloedd o Dirwedd Hanesyddol ar y Gofrestr (ASIDOHL2) i asesu arwyddocâd effaith bosibl datblygiadau ar dirwedd hanesyddol mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth Archaeolegol briodol yng Nghymru a Cadw.

**Dŵr**
Mae'n hanfodol ystyried effeithiau posibl cynllun neu raglen ar ddŵr fel rhan o'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol.

**Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr**
Nod cyffredinol Fframwaith Cyfarwyddeb Dŵr yr UE yw sicrhau system integredig o ddiogelu a gwella dŵr a'i ddefnyddio'n gynaliadwy. Dylid ystyried pob agwedd ar ddŵr, yn cynnwys ansawdd, cyfaint a llif dŵr (dŵr ar yr wyneb a dŵr daear), cyflenwad a chapasiti dŵr, trin dŵr gwastraff a pherygl llifogydd. Mae eu heffaith ar fuddiannau ecolegol yn berthnasol hefyd. O dan y Gyfarwyddeb, rhaid sicrhau nad yw statws cyrff dŵr yn dirywio. Dylai pob corff o ddŵr wyneb a dŵr daear geisio sicrhau statws da erbyn 2015. Mae'r Gyfarwyddeb yn caniatáu gohirio'r dyddiad cau ar gyfer cyflawni hyn tan ddiwedd y trydydd cylch yn 2027. Rhaid rhoi'r gorau i arllwys sylweddau peryglus â blaenoriaeth (y sylweddau mwyaf gwenwynig a arllwysir i ddŵr) erbyn 2020.

Gall cynlluniau trafnidiaeth gynhyrchu sylweddau peryglus â blaenoriaeth fel cadmiwm, sinc, copr, olewau mwynol a llygryddion organig. Dylai'r cynllun ddangos na fydd unrhyw effaith andwyol ar statws cyrff dŵr perthnasol. Rhaid rhoi rhaglen realistig a dichonadwy o fesurau, costau ac ymrwymiadau ar waith er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw effaith a welir ar gyrff dŵr. Fel arall, rhaid i'r cynllun beidio â chael effaith andwyol ar adnoddau dŵr, nodweddion dŵr ac argaeledd dŵr ar lefel strategol neu brosiect.

**Rheoli Peryglon Llifogydd**
Rhaid asesu cynigion yn ystod y gwaith strategol ac wrth ddatblygu'r prosiect. Mae'n cynnwys ystyried effeithiau posibl cynllun neu raglen ar asedau materol ac ar yr hinsawdd.

Mae'r cynigion ar gyfer Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle mae perygl uchel o lifogydd, yn ôl Mapiau Cyngor Datblygu Llywodraeth Cymru a'n Mapiau Parthau Llifogydd ni'n hunain. O ran y perygl o lifogydd llanw, mae'r seilwaith presennol, i'r de o Gasnewydd yn bennaf, yn cael ei amddiffyn rhag llifogydd llanw.

Wrth nodi problemau ac effeithiau, dylid bod yn rhagofalus a symud y llwybr a ffafrir oddi wrth ardaloedd lle mae perygl uchel o lifogydd. Yn dilyn hynny, dylid dangos bod peryglon a chanlyniadau llifogydd yn cael eu rheoli mewn modd derbyniol gydol oes y datblygiad (75 mlynedd yn unol â'r Canllawiau Arfarnu Prosiectau cyfredol) oherwydd ffactorau newid yn yr hinsawdd. Mae'n bosibl bod cymhwyso ffactorau newid yn yr hinsawdd yn dangos bod y llanw'n torri/gorlifo'r amddiffynfeydd môr.

Rhaid asesu perygl llifogydd dŵr arfordirol, prif afon a/neu ddŵr wyneb. Bydd angen canfod effeithiau'r Cynllun ar lifogydd mewn mannau eraill a dangos eu bod yn dderbyniol.

Bydd angen cytuno ar gynllun rheoli dŵr a'i weithredu'n effeithiol.

Bydd angen Caniatâd Amddiffyn rhag Llifogydd gennym ni i weithio ar, dros neu ger prif afon ddynodedig a bydd angen caniatâd yr Awdurdod Llifogydd Lleol Blaen ar gyfer cyrsiau dŵr cyffredin.

**Priddoedd a Thir sydd wedi'u heffeithio gan halogiad**
Mae'n hanfodol ystyried effeithiau posibl cynllun neu raglen ar briddoedd fel rhan o'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol.

**Materion Ychwanegol yn ymwneud â Thir sydd wedi'i effeithio gan Halogiad**
Bydd heriau peirianyddol anodd a fydd yn gofyn am asesiad technegol manwl gan fod y llwybr ger safleoedd tirlenwi gweithredol a hanesyddol, yn cynnwys Safle Tirlenwi Docks Way.

Bydd angen i unrhyw atebion adfer a pheirianyddol a gynigir atal effaith andwyol ar ddŵr a reolir, priddoedd a buddiannau ecolegol. Bydd angen sicrwydd arnom y gellir osgoi symud halogyddion.

Os bydd angen amrywio Trwyddedau Amgylcheddol y gosodiadau, byddai angen i ni fod yn fodlon na fyddai'r gwaith sy'n dal i fynd rhagddo a'r rheolaeth hirdymor yn cael effaith amgylcheddol andwyol.

Gall y cynigion gynnig y cyfle i wella ac adfer yr adnodd pridd.

**Materion Rheoli Gwastraff Ychwanegol**
Rydym yn croesawu'r ffaith bod strategaeth a chynllun rheoli gwastraff wedi'u paratoi.

**Materion Ychwanegol yn ymwneud ag Ansawdd Aer**
Mae'n hanfodol ystyried effeithiau posibl cynllun neu raglen ar aer fel rhan o'r broses Asesiad Amgylcheddol Strategol.

Rydym yn croesawu'r cyfle i drafod methodolegau a pharamedrau ar gyfer yr asesiad o ansawdd aer a dyddodi llygryddion a gludir yn yr aer ac effeithiau hynny.

## 3. Sut bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu mewn perthynas â'r cynllun drafft

Mae ein staff yn meithrin perthynas waith dda gyda thîm prosiect Llywodraeth Cymru a'i gwmni cynghori, Arup. Rydym yn hyderus bod gennym y sgiliau a'r galluoedd yn y sefydliad i allu cynghori ar y broses gynllunio ac ymateb iddi.

Bydd Tîm Asesu Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni'r rôl ymgynghorai statudol wrth ymateb i Adroddiad Amgylcheddol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a gwaith HRA, ar hyd braich ac yn annibynnol yn weithredol ar yr holl staff sy'n rhoi cyngor anffurfiol 'heb ragfarn' mewn cyfarfodydd ac ymateb ffurfiol i'r cynllun drafft ei hun.

Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymateb i'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd na'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan nad yw'r materion hyn yn rhan o'n cylch gwaith.

Maes o law, pe bai cynllun ffordd lefel prosiect yn cael ei gyflwyno, byddwn yn ystyried ceisiadau am drwydded/caniatâd ac yn gofyn am gyngor fel rhan o'r ystyriaethau hynny.

## 4. Crynodeb

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd ati'n ddiwyd i asesu'r cynllun drafft ar gyfer coridor yr M4 a'r asesiadau amgylcheddol cysylltiedig mewn perthynas â'n cylch gwaith amgylcheddol statudol. Mae'r cynllun drafft yn codi materion pwysig ar draws ein cylch gwaith, yn cynnwys mewn perthynas â safleoedd dynodedig, perygl llifogydd, rhywogaethau a warchodir, tir halogedig, rheoli gwastraff a thirwedd hanesyddol. Rydym wrthi'n asesu arwyddocâd y materion hyn ar hyn o bryd er mwyn rhoi barn gytbwys i Lywodraeth Cymru ar ei chynllun drafft fel ei chynghorydd amgylcheddol statudol. Edrychwn ymlaen at gael deialog parhaus â chi ynghylch Coridor yr M4 o amgylch Casnewydd, a materion amgylcheddol yn arbennig.

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales
16 Hydref 2013